**Rhif: 2**

| | |
|---|---|
| **Rhif y Cais:** | **C20/1063/22/AC** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **22/12/20** |
| **Math y Cais:** | **Adnewyddu a Newid Amod(au)** |
| **Cymuned:** | **Clynnog** |
| **Ward:** | **Clynnog** |
| **Bwriad:** | **Cais dan Adran 73 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref i amrywio amod 1 ar ganiatâd cynllunio C16/0816/34/MW (estyniad arfaethedig dwyreiniol i echdynnu tywod a graean a gwaith adfer graddol) i ganiatáu estyniad pedair blynedd i gwblhau gweithrediadau mwynau a blwyddyn ychwanegol i gwblhau'r gwaith adfer** |
| **Lleoliad:** | **Cefn Graianog, Llanllyfni, Caernarfon, LL54 6SY** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATÁU GYDAG AMODAU.** |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Cais yw hwn i newid amod 1 ar ganiatâd cynllunio presennol, C16/0816/34/MW i ymestyn yr amserlen i godi a gweithio tywod a graean o'r ardal estynedig bresennol sydd â chaniatâd, am bedair blynedd arall.

1.2 Lleolir safle'r cais ar ystlys ddwyreiniol yr ardal echdynnu bresennol, tua 530m o AHNE Llŷn i'r gorllewin o Barc Cenedlaethol Eryri ac oddeutu 1,500m i'r de ddwyrain. Mae'r safle presennol, gan gynnwys y cyfleuster prosesu, lagwnau a'r gweithfeydd hanesyddol sydd wedi'u hadfer yn ymestyn i oddeutu 59 hectar, ond yn ei hanfod, mae'r gwaith presennol yn cynnwys dwy brif ardal wedi'u cysylltu gan gludydd a ffordd fewnol. Mae'r estyniad arfaethedig yn golygu 5.8ha ac yn cynnwys tir sydd wedi'i adfer a'r bwriad yw ail-ymweld â'r ardaloedd yma i ail-weithio'r mwyn a ystyriwyd yn flaenorol i fod yn aneconomaidd, gan hefyd alluogi'r cynllun echdynnu i gael mynediad i ddyddodion pellach gan ymestyn tua'r dwyrain. Mae ardal yr estyniad arfaethedig yn cynnwys glaswelltir wedi'i wella gyda therfynau caeau o waliau cerrig afreolaidd. Yn ffinio'r ardal, mae'r ardal waith bresennol i'r gorllewin, llwybr beicio Lôn Eifion i'r dwyrain ac ardal o laswelltir corsiog, garw i'r gogledd.

1.3 Bydd ardal yr estyniad arfaethedig yn cynnwys dau gyfnod echdynnu i ryddhau 380,000 tunnell ychwanegol o dywod a graean, ac ar sail yr allbwn presennol o 90,000 tunnell y flwyddyn, byddai'n cael ei echdynnu dros gyfnod o bedair blynedd. Mae cynlluniau'r cais yn ceisio rhesymoli y dilyniant graddol i echdynnu ac adfer y safle ar y cyd â'r tir gweithredol sy'n weddill sy'n amodol ar y cais cysylltiedig, C20/1065/22/AC.

1.4 Byddai'r dulliau gweithio yr un rhai ag a ddefnyddir yn bresennol yn y chwarel, gan ddefnyddio yr un beiriannu turio, cludyddion a pheiriannau symudol eraill fel y presennol. Bydd dilyniant y gwaith yn destun yr un amodau ag sydd eisoes yn bodoli gan ddelio gyda gofynion fel oriau gweithredu, sŵn, ecoleg, llwch, hwsmonaeth amaethyddol a chofnodi/dulliau lliniaru archeolegol cyn mynd ati i echdynnu. Mae'r cynllun adfer ac ôl-ofal arfaethedig i ddefnydd amaethyddol yn parhau fel ag y mae yn awr yn bennaf, wrth i ddilyniant y gweithrediadau fynd rhagddo tua'r dwyrain i ardal yr estyniad. Yn ychwanegol, mae'r bwriad yn cydnabod bod cyfle i wella cadwraeth natur a buddiannau bioamrywiaeth ac mae cynllun adfer wedi ei lunio yn unol â hyn.

1.5 Nid yw'r datblygiad arfaethedig felly yn unol â'r disgrifiad a'r meini prawf a nodir yn Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2017. Er hynny, mae'r datblygiad yn syrthio o fewn y disgrifiad o ddatblygiad sydd wedi'i nodi ym Mharagraff 2 i Atodlen 2 y Rheoliadau (*chwareli, mwyngloddio brig a chodi mawn) a pharagraff 13 (unrhyw newid i neu estyniad i'r datblygiad .... ble bo'r datblygiad hwnnw eisoes wedi ei awdurdodi, ei weithredu neu yn y broses o gael ei weithredu, a gall y newid neu'r estyniad gael effeithiau andwyol ar yr amgylchedd*). Wedi sgrinio ac asesu'r bwriad yn unol â'r meini prawf datblygu dan Atodlen 3, ystyrir nad yw effaith debygol y datblygiad ar yr amgylchedd yn ddigon i gyfiawnhau cyflwyno Asesiad Effaith Amgylcheddol gyda'r cais cynllunio.

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae'r ystyriaethau polisi yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

2.2 Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy (neu lesiant). Mae'r adroddiad hwn

wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r "egwyddor datblygu cynaliadwy", fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015, ac wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Ystyrir na fyddai unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni'r amcanion llesiant o ganlyniad i'r argymhelliad arfaethedig.

**2.3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026**

Polisi Strategol PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig

Polisi Strategol PS 5: Datblygu Cynaliadwy

Polisi Strategol PS 13: Darparu Cyfleoedd ar gyfer Economi Ffyniannus

Polisi Strategol PS 19: Gwarchod a lle fo'n berthnasol Gwella'r Amgylchedd Naturiol

Polisi Strategol PS 22: Mwynau

POLISI AT 4 Diogelu Safleoedd Archeolegol nad ydynt wedi'u Dynodi a'u Gosodiad

POLISI AMG 1: Cynlluniau Rheolaeth Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

POLISI AMG 3: Gwarchod a Gwella Nodweddion a Rhinweddau sydd yn unigryw i Gymeriad y Dirwedd Leol

POLISI AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol

POLISI PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu

POLISI PCYFF 6: Cadwraeth Dŵr

POLISI MWYN 3: Datblygiadau Mwynau

POLISI MWYN 5: Cylchfeydd Rhagod o amgylch Safleoedd Mwynau

POLISI MWYN 9: Adfer ac Ôl-ofal

Canllaw Cynllunio Atodol - Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy 2019

Canllawiau Cynllunio Atodol - Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd 2009

**2.4 Polisïau Cenedlaethol:**

- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru, Rhifyn 11 (Chwefror 2021),

- Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040,
- Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017;
- Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (Medi 2009) Llywodraeth Cymru

- Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 11: Sŵn (Hydref 1997), Llywodraeth Cymru
- Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Hydref 2017) Llywodraeth Cymru
- Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 15: Datblygu a Risg Llifogydd

- Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 23: Datblygiad Economaidd (Chwefror 2014), Llywodraeth Cymru
- Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Mai 2017), Llywodraeth Cymru

- Llywodraeth Cymru - Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: AGREGAU (Mawrth 2004) a Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Mae gan y safle hanes hir o gloddio tywod a graean, hanes sy’n dyddio’n ôl i’r caniatâd cynllunio cynharaf a roddwyd ym mis Mai 1958, a cheir tystiolaeth bod y gwaith wedi cyflenwi deunyddiau ar gyfer nifer o gontractau peirianneg sifil ar raddfa fawr yn yr ardal, gan gynnwys Gorsaf Bŵer Dinorwig, Argae Stwlan a nifer o gontractau gwella ffyrdd lleol. Mae'r caniatadau isod yn benodol i ardal y cais.

3.2 Yn y blynyddoedd diweddar, mae’r safle wedi bod yn weithredol dan ganiatâd cynllunio 2/14/16G a roddwyd ar 1 Mawrth 1996, oedd yn cynnwys ardal brosesu Cefn Graianog a’r gweithrediadau cloddiol yn Fferm Graianog. Rhoddwyd caniatâd pellach, C00D/0005/34/MW, ym mis Mai 2000 i newid amodau 1 a 2 o'r caniatâd hwn i altro trefn y gweithrediadau cloddiol. Roedd y newid yma'n galluogi i'r gweithrediad gyfuno amryfal fathau o fwynau ar wyneb y gwaith i gwrdd â gofynion cynhyrchu/gwerthiant ac i resymoli y drefn o adfer graddol.

3.3 **C10/0487/34/MW -** Cyflwynwyd y cais gydag Asesiad Effaith Amgylcheddol. Caniatawyd cais cynllunio yn ddarostyngedig i amodau ar 23 Awst 2011 i amrywio amodau ar ganiatâd cynllunio presennol i ymestyn oes y gwaith mwyngloddio tan 31 Rhagfyr 2020 ac amrywio cynllun gwaith dan amodau 1 a 2 o ganiatâd cynllunio 2/14/12G a C00D/0487/34/MW.

3.4 **C15/0299/34/MW** Caniatawyd gydag amodau ar 22 Mehefin 2015 – Adeiladu 3 lagŵn siltio ategol a gwaith cysylltiedig i ddarparu'r capasiti angenrheidiol i alluogi gwaith mwynau sy'n parhau a darparu system gaeedig i reoli dŵr chwarel ar y safle.

3.5 **C16/0816/34/MW -** Caniatawyd yn ddarostyngedig i amodau ar 18 Tachwedd 2016 - Estyniad dwyreiniol arfaethedig i gloddio tywod a graean a gwaith adfer graddol.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned Clynnog: | Dim gwrthwynebiad |
| Cyngor Cymuned Llanllyfni : | Dim gwrthwynebiad |
| Uned Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru: | Nid yw Llywodraeth Cymru, fel awdurdod priffyrdd ar gyfer cefnffordd yr A487, yn dymuno cyflwyno cyfarwyddyd mewn perthynas â'r cais hwn. |
| Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd: | Dim Ymateb |
| Uned Priffyrdd a Thrafnidiaeth Gwynedd: | Dim gwrthwynebiad i’r cais i ymestyn yr amser. |

| | |
|---|---|
| Rheolwr AHNE Cyngor Gwynedd: | Mae safle gwaith Cefn Graianog ger Bryncir ac yn agos at ffin yr AHNE. Sefydlwyd y gwaith ddegawdau yn ôl i ddarparu tywod a graean yn lleol ac yn rhanbarthol. Bu gwaith adfer effeithiol ar y safle yn ystod y blynyddoedd diwethaf sy'n lleihau'r effaith ar y dirwedd. Oherwydd bod gan yr estyniad i'r dwyrain gyfyngiad amser, ac nad oes unrhyw gynigion i ymestyn ardal y safle, nid oes unrhyw bryderon am yr effaith ar yr AHNE. |
| Ymgynghorydd Iaith Cyngor Gwynedd: | Dim gwrthwynebiad i'r cais i ymestyn yr amser o safbwynt ieithyddol. Ystyrir mai effaith niwtral fyddai o gymeradwyo'r cais. |
| Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd: | Nid oes unrhyw bryderon archeolegol gyda'r cyfnod ymestyn a ofynnir. |
| Hawliau Tramwy Cyhoeddus Gwynedd: | Dim ymateb. |
| Uned Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Gwynedd: | Dim sylwadau ar ddraenio tir na pheryglon posib llifogydd. |
| Dŵr Cymru: | Yn cydnabod nad yw cais (Cyf:C20/1063/22/AC) yn golygu cynigion i gysylltu â'r garthffos gyhoeddus neu rhwydwaith y prif gyflenwad dŵr ac felly nid ydym yn cynnig unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i newid amod 2 i ganiatáu ymestyn yr amser, yn amodol i gydymffurfio gyda unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â draenio. |
| Parc Cenedlaethol Eryri: | Dim Ymateb |
| Scottish Power: | Dim Ymateb |

| | |
| --- | --- |
| Uned Bioamrywiaeth Gwynedd: | • Mae bob un o'r tri chaniatâd sy'n bodoli (C10/0487/34/MW, C15/0299/34/LL, C16/0818/34/MW) wedi cael eu hasesu ar gyfer effaith sylweddol debygol dan Reoliad 63 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 pan gawsant eu penderfynu. Ni ystyriwyd bod yr un o'r tri chaniatâd yma'n debygol o gael effaith sylweddol ar nodweddion cadwraeth ACA Corsydd Eifionydd ac roedd CCW/NRW yn cytuno gyda'r asesiadau hyn. Nid oes unrhyw newid i'r caniatadau presennol, ac felly mae'r asesiadau blaenorol ar gyfer effaith sylweddol tebygol yn aros yr un fath ac mae'r bwriad i ymestyn amser y caniatâd yma yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ACA Corsydd Eifionydd.<br>• I grynhoi, ni fydd parhad y gwaith presennol yng Nghefn Graianog yn effeithio ar ACA Corsydd Eifionydd am y rhesymau isod:<br>o Nid yw'r chwarel a'r gwaith cysylltiedig yn yr ACA ac nid yw ychwaith mewn cynefin tebyg sy'n gyfagos at Gors Cyfelog. Felly, ni fydd unrhyw dir sydd yn yr ACA yn cael ei gymryd ac ni fydd unrhyw gynefin sy'n gysylltiedig â'r gors yn cael ei golli.<br>o Ni fydd hydroleg y gors yn newid.<br>o Adeiladwyd system lagŵn dolen gaeedig yn y chwarel i sicrhau nad oes unrhyw lygredd yn mynd i'r gors.<br>• Argymhellir bod y cynlluniau adfer i'r chwarel, lagwnau a'r ardaloedd prosesu yn ceisio creu cynefinoedd o werth bioamrywiaeth uchel fel porfa frwynog (brwyn blodeufain a glaswellt y gweunydd) a gweirglodd blodau gwyllt gyda phwll bach a phyllau bas. Mae cynefinoedd micro fel pyllau bas bach a phyllau bach ac ardaloedd o brysgwydd, o gymorth i greu mwy o amrywiaeth i fywyd gwyllt, yn arbennig infertebratau. Mae brwyn a gwair uchel yn darparu cysgod i famaliaid bach ac ymlusgiaid. Hoffem weld mwy o fanylion ar yr holl gynlluniau adfer, fel cynlluniau sy'n dangos nodweddion cynefinoedd micro (pyllau bas, pyllau, prysgwydd, waliau cerrig sych ac ati) gyda rhestrau o rywogaethau i blannu (llwyni a choed) a blodau gwyllt i gymysgedd hadau.<br>• Argymhellir y dylid creu nodwedd i wenoliaid y glennydd nythu, megis clawdd tywod neu bridd uchel.<br>• Rhestrir rhywogaethau o blanhigion anfrodorol dan atodlen 9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y’i diwygiwyd), ac mae hi’n drosedd i achosi iddynt dyfu yn y gwyllt. Dylid monitro holl safle'r chwarel yn rheolaidd ar gyfer rhywogaethau o blanhigion anfrodorol fel Llysiau’r Dial, Ffromlys Chwarennog a Choed Mêl. Dylid cynnal arolwg o safle'r chwarel ar gyfer y planhigion hyn bob blwyddyn ynghyd â map i ddangos eu lleoliad ac amcangyfrif o'u nifer gan eu darparu i'r ACLl. Dylid cael gwared o'r rhywogaethau hyn yn y ffordd briodol. |
| Yr Arolygiaeth Chwareli: | Dim sylwadau gwrthwynebus i'w gwneud ar y cais hwn am estyniad amser a ganiateir i echdynnu ac adfer y chwarel |

| | |
|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | <u>Ymgynghoriad 1af</u><br><br>Dim gwrthwynebiadau i'r cais, ond gyda'r sylwadau isod;<br><br>• O'r wybodaeth a ddarparwyd, mae CNC yn ystyried y gall y bwriadau effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig Corsydd Eifionydd (ACA), Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cors Gyfelog (SSSI) a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Gyfelog (GNNR), gyda effaith bosib gan lwybrau llygredd ar nodweddion y safle. Efallai na fyddant yn golygu effaith andwyol os glynir at/gweithredir mesurau atal llygredd.<br>• Nid oes unrhyw asesiad o effaith sylweddol tebygol dan Reoliad 63 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, wedi'i gynnal gan eich awdurdod neu nid yw wedi ei anfon ymlaen i CNC i'w ystyried. Os dewch i'r casgliad bod y datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith sylweddol ar y safle Ewropeaidd, edrychwn ymlaen i chi ail-ymgynghori gyda ni. Oherwydd absenoldeb yr asesiad yma, ni all CNC roi sicrwydd na fydd y cynigion yn golygu effaith andwyol ar ACA.<br>• Argymhellwn eich bod yn ymgynghori gyda'ch ecolegydd ar unrhyw gyfleoedd gwella posib a'r cynnig tirweddu,<br>• Cynghorwn yr ymgeisydd ei fod yn gyfrifol, yn ogystal â chael chaniatâd cynllunio, am sicrhau ei fod yn cael pob hawlen/caniatâd/trwydded sy'n berthnasol i'r datblygiad. Cyfeiriwch at ein gwefan i gael rhagor o fanylion.<br>• Rheoli Amgylcheddol; Cynghorir yr ymgeisydd i ddilyn y canllawiau sydd yn Canllawiau Atal Llygredd 5 "Works and Maintenance in or Near Water":<br><br><u>2il Ymgynghoriad (Asesiad HRA)</u><br><br>• Cytunwn gyda Gwynedd yn ei asesiad fel awdurdod cymwys dan Reoliad 63 o Reoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, bod bwriad i ymestyn yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ACA Corsydd Eifionydd. |
| Polisi Priddoedd a Defnydd Tir Amaethyddol Llywodraeth Cymru: | Dim Ymateb |
| Cefn Gwlad a Mynediad Gwynedd: | Dim Ymateb |
| Sustrans: | Dim Ymateb |

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Gosodwyd hysbysiad mewn lleoliad gerllaw'r safle ar 7 Ionawr 2021, ac fe hysbyswyd cymdogion cyfagos drwy lythyr. Ymddangosodd hysbysiad yn y wasg leol ar 20 Ionawr 2021 ac nid oes unrhyw lythyrau wedi eu derbyn mewn ymateb i'r cyhoeddusrwydd statudol ar y cais.

**Asesu'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**5. Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (Rhifyn 11, Chwefror 2021) yn amlinellu polisi cynllunio Llywodraeth y Cynulliad o ran cloddio mwynau. Dylai pob Awdurdod Cynllunio Mwynau sicrhau bod ei gynlluniau datblygu yn caniatáu cyfrannu at gyflenwad mwynau sy'n diwallu anghenion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

5.2 Mae Cyngor Gwynedd, ar y cyd â holl Awdurdodau Cymru wedi cadarnhau'r Datganiad Technegol Rhanbarthol a luniwyd gan Weithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru sydd ar hyn o bryd yn destun ail adolygiad. Paratowyd y datganiad yn unol â darpariaethau Polisi Cynllunio Mwynau (Cymru) a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 1: Agregau (NCTM1), i osod amcan cyffredinol i sicrhau cyflenwad o agregau y mae modd ei reoli'n gynaliadwy*; "... fel y gellir cael y cydbwysedd gorau rhwng ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, a sicrhau bod effeithiau ar yr amgylchedd ac ar fwynderau sy'n deillio o unrhyw waith cloddio angenrheidiol yn cael eu cadw ar lefel sy'n osgoi achosi niwed amlwg i fuddion o bwysigrwydd cydnabyddedig*". Prif ddiben y Datganiad Technegol Rhanbarthol yw amlinellu'r strategaeth ar gyfer darparu'r agregau yn rhanbarth gogledd Cymru.

5.3 Mae'n asesu gallu amgylcheddol pob awdurdod i gyfrannu at gyflenwad digonol o agregau crai. Mae'n ofynnol bod y Cyngor, fel Awdurdod Cynllunio Mwynau, yn cynnal banc tir o fwynau agregau wrth gefn yn unol â'r canllawiau cyfredol sy'n nodi lleiafswm o saith mlynedd ar gyfer tywod a graean. Ers cyhoeddi'r Adolygiad RTS cyntaf, mae lefel gyffredinol yr agregau wrth gefn a ganiatawyd yng ngogledd Cymru wedi gostwng.

5.4 Mae'r dyraniad ar gyfer tywod a graean yng Ngwynedd yn dilyn yr Ail Adolygiad RTS wedi ei gyfrif i fod yn 3,834 miliwn tunnell. Ar hyn o bryd, mae'r tywod a'r graean sydd wrth gefn yn 1.175 miliwn tunnell, yn cynnwys gwaith Llecheiddior Uchaf, Penygroes a'r estyniad presennol yng Ngraianog. Nid yw'r cyflenwadau hyn sydd wrth gefn yn ddigonol i ddarparu banc tir o fwynau am saith mlynedd llawn ar ddiwedd cyfnod y cynllun. Mae'r RTS felly yn cydnabod bod diffyg tywod a graean ar gyfer dyraniadau yng Ngwynedd sy'n gyfanswm sy'n lleiafswm o **2.659** miliwn tunnell fydd angen ei adnabod yn yr adolygiad a ddaw o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae'r ffigwr yma'n ystyried y symiau o dywod a graean a ganiateir wrth gefn y gellid eu mantoli yn erbyn y gofynion dyraniad. Er mai ychydig iawn o effaith a gaiff 380,000 tunnell wrth gefn o ran cwrdd â gofynion dyraniad yr awdurdod, serch hynny mae'r bwriad yn ychwanegiad a groesawir i'r banc tir o dywod a graean yng ngogledd orllewin Cymru.

5.5 Ymysg amcanion eraill, mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod bod gweithio mwynau yn wahanol i ffurfiau eraill o ddatblygu gan fod yn rhaid darganfod bod mwynau'n bodoli ar safle cyn y caniateir cloddio amdanynt a defnydd tir dros dro yw cloddio am fwynau, ac ni ellir meddwl amdano fel defnydd parhaol o dir, er y gallai'r gwaith fynd yn ei flaen am amser hir. Caiff y deunydd a gloddir yn y chwarel ei ddefnyddio'n uniongyrchol mewn cynnyrch adeiladu, gwaith amddiffyn rhag y môr, a choblau addurniadol, ond yn bennaf i gyflenwi storfeydd manwerthu concrid sydd wedi'i gymysgu'n barod, a hynny drwy ogledd-orllewin Cymru gan gynnwys y Parc Cenedlaethol, Ynys Môn a rhannau o Gonwy.

5.6 Bydd parhau i gloddio am dywod a graean yng Nghefn Graianog yn sicrhau bod y Cyngor yn diwallu ei oblygiadau dyraniad yn yr RTS, i gyflenwi mwynau ar gyfer is-ranbarth Gogledd Cymru a chadw banc tir saith mlynedd o dywod a graean. Ychydig o gronfeydd tywod a graean a

ganiateir sydd ar gael yng Ngogledd Orllewin Cymru a bydd y cynnig hwn yn sicrhau cyflenwad hanfodol o dywod a graean i'r economi adeiladu leol. Bydd hyn yn lleihau'r angen i fewnforio deunyddiau o du allan i Wynedd, gan felly ostwng costau ac allyriadau carbon.

5.7 Er bod y safle wedi'i leoli rhwng dynodiadau AHNE a'r Parc Cenedlaethol, nid oes unrhyw ddynodiadau tirwedd neu amgylcheddol oddi fewn neu'n agos at ffin y cais. Yn amodol i ystyriaeth yr holl ystyriaethau cynllunio materol eraill, ystyrir bod y datblygiad yn cydymffurfio gyda gofynion Polisi Mwynau Strategol PS22 a Pholisi MWYN 3 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026 gan roi ystyriaeth i bolisi cenedlaethol cyfredol ar gyfer cynnal banc tir o reserfau yn unol â'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn NCTM1 (Cymru) Agregau a'r Datganiad Technegol Rhanbarthol.

5.8 Yn ogystal â'r egwyddor am yr angen am y datblygiad, mae'r materion cynllunio hanfodol yn yr achos hwn yn cael sylw isod;

**Mwynderau Gweledol**

5.9 Bydd safle'r cais yn ymestyn ôl troed y gwaith presennol o 5.8ha mewn dilyniant graddol o weithrediadau. Mae graddau'r tir gweithredol, gan gynnwys yr ardal gloddio, safle prosesu a'r lagwnau yn mesur dros 29 hectar ac mae'r datblygiad ynghyd â'r caniatâd sylfaenol i ennill a gweithio tywod a graean gyda'r posibilrwydd o gael effaith cronnus ar olygfeydd i fewn ac allan o AHNE Llŷn, Parc Cenedlaethol Eryri yn ogystal ag ardal cymeriad y dirwedd ble lleolir y safle. Er hynny, mae effeithiau o'r fath yn rai dros dro a byddant yn cael eu lliniaru gan gynllun adfer i borfa gymysg a chadwraeth natur. Bydd y waliau cerrig ar y perimedr ac o flaen Lôn Eifion yn parhau ac yn cael llonydd fel rhan o'r cynigion, fydd yn cynnal rhagod o ddwy fetr o ochr yr ardal storio priddoedd, gan sgrinio golygfeydd o'r chwarel i ddefnyddwyr y lôn feicio.

5.10 Mae'r cynllun cyfnodol o weithio o'r gorllewin i'r dwyrain, yn sicrhau bod ardaloedd newydd yn cael eu stripio a'u gweithio ar yr un pryd pan fo ardaloedd gweithredol yn cael eu hadfer i un ai porfa wedi'i gwella neu gynefin bywyd gwyllt. Mae ail-adfer terfynau'r caeau gafodd eu had-ennill wrth dynnu'r waliau cerrig presennol yn elfen hanfodol o'r cynllun adfer sy'n nodwedd drawiadol o'r chwarel bresennol. Mae nodweddion o bwysigrwydd hanesyddol yn y dirwedd leol yn ogystal â safleoedd gaeafgysgu ymlusgiaid, safleoedd nythu adar bridio a chynefin cennau.

5.11 Mae gweithio tywod a graean yn gymharol ddeinamig o'i gymharu â chloddio am graig galed gan fod reserfau yn gyffredinol ar gael dan dir amaethyddol ac efallai y byddant yn cael eu gweithio yn gymharol sydyn gyda pheiriant turio. O ganlyniad, mae'r awdurdod cynllunio mwynau angen i waith adfer cynyddol fantoli yn erbyn colli mwynderau a thir cynhyrchiol i liniaru effeithiau gwaith o'r fath. Hyd yma, mae safleoedd sydd wedi eu gweithio wedi cael eu hadfer yn effeithiol i'w defnydd gwreiddiol, yn bennaf amaethyddiaeth, ac maent yn awr yn cyd-fynd â'r ardal oddi amgylch.

5.12 Mae'r asesiad tirwedd ac effaith gweledol a gyflwynwyd fel rhan o'r cynigion datblygu i'r rhiant-ganiatâd, C16/0816/34/MW, yn cynnwys gwerthusiad o'r datblygiad a detholiad o olygfannau a 'photomontages' a dynnwyd o olygbwyntiau yn ardaloedd cymeriad y dirwedd yn ac o amgylch y safle. Mae'r asesiad yn cynnwys gwerthusiad o'r dirwedd o amgylch yn nhermau'r AHNE, PCE, ynghyd â'r effaith leol.

5.13 Lleolir y chwarel i gyd yn ardal cymeriad y dirwedd Canol Llŷn ACD) sydd yn fras yn ymwneud â'r llwyfandir canolog uwchben y cyfuchlin 50m. Lleolir y dirwedd o ddiddordeb hanesyddol eithriadol Nantlle tua 1000m i'r gogledd ddwyrain o'r chwarel bresennol, ac ni ystyrir bydd y bwriad yn effeithio ar natur a ffabrig hanesyddol y dynodiad tirlun yma na phwysigrwydd diwylliannol yr ardaloedd chwareli llechi. Er hynny, mae mwyngloddio wedi ac yn parhau i effeithio ar y dirwedd leol ac mae hanes o ymelwa masnachol o adnoddau tywod a graean yn ACD Canol Llŷn am fwy na 60 mlynedd. Mae'r ardal cymeriad yn ffurfio rhagod rhwng AHNE Llŷn i'r gorllewin a Pharc Cenedlaethol Eryri i'r dwyrain ac mae ei nodweddion allweddol wedi eu diffinio yn CCA Gwynedd (Ardal Cymeriad y Dirwedd Tachwedd 2009) fel;

- Yn gyffredinol, mae'n ardal homogenaidd wedi'i gwahanu gan fryniau amlwg megis Mynydd Cennin a'r Foel a lle mae'r tirffurf wedi'i ddominyddu gan effaith dyddodion rhewlifol.
- Yn ei hanfod, mae'n ardal amaethyddol ei natur, gyda phlanhigfeydd coedwigaeth mawr megis Bwlch Derwin,
- Elfennau hanesyddol, gan gynnwys nodweddion cynhanes a chanoloesol, er eu bod yn aml wedi'u hynysu o fewn y llociau 19 Ganrif mwy.

5.14 Mae'r Asesiad Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Gweledol yn cadarnhau bod yr ardal oddi amgylch (ACD Canol Llŷn) o dueddiad canolig oherwydd y dirwedd wledig gymhleth gan gynnwys gweithrediadau mwyngloddio hanesyddol a rhai sy'n bodoli, gyda pheilonau a chefnffordd yr A487 yn rhedeg drwy ganol trum a leolir rhwng dynodiadau tirlun sylweddol ond hefyd ACA Corsydd Eifionydd i'r de. Ystyrir y byddai'r estyniad arfaethedig yn cael effaith ar gymeriad y dirwedd leol ond byddai yn cael ei liniaru drwy weithrediad cynllun graddol o echdynnu ac adfer. O ystyried y dirwedd hynod o sensitif, mae'r estyniad arfaethedig wedi ei asesu fel un sydd ag effaith andwyol ganolig ar gymeriad y dirwedd leol oddi fewn i gyffiniau agos y safle er bod effeithiau o'r fath yn gostwng gyda phellter o'r safle.

5.15 Yn ystod y blynyddoedd diweddar, cafodd yr effeithiau gweledol a thirweddol ddylanwad mawr oherwydd cynnydd y gweithrediadau tua'r gogledd. Mae gwaith ar wyneb y chwarel wedi agor golygfannau i'r gogledd ac o ffordd Dosbarth 3 (Ffordd Cae Duon) i'r dwyrain o'r A487. Yn yr un modd, mae gostwng uchder wyneb y gwaith wedi lliniaru'r effaith weledol ar y dirwedd wrth edrych o'r AHNE, er bod y lagwnau sydd newydd eu hadeiladu, a'r ardal bentyrru yn parhau yn nodwedd amlwg. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, cadarnhaodd y rheolwr AHNE: ystyrir na fydd y bwriad yn cael effaith negyddol ar yr AHNE a bydd gwelliant os yw'r safle yn cael ei adfer yn llawn erbyn 2019, yn unol â'r cynlluniau a gyflwynwyd.

5.16 Mae'r ymyrraeth weledol a gweithredol yn cynnwys symud a gweithredu peiriannau'r gwaith yn cynyddu'n sylweddol wrth wylio o ardaloedd sy'n agos at y safle. Mae posibilrwydd y bydd golygfeydd ysbeidiol o'r safle o'r golygfannau i'r de ac ymhellach i'r gogledd ar hyd y trac beicio er ei fod wedi ei sgrinio i ryw raddau gan lystyfiant a'i leoliad mewn trychiad.

5.17 Ystyrir bod unrhyw newid o'r golygfannau yn y Parc Cenedlaethol yn ymylol. Mae'r olygfa sydd i'w gweld o eiddo Cwmbran, a leolir tua 350m i fyny trac sy'n dringo tua'r dwyrain o fan gyferbyn â mynedfa y chwarel ar yr A487, yn dangos mai nodwedd weledol amlycaf y chwarel o hyd yw'r gwaith prosesu a'r ardal storio pentyrrau. Mae'r asesiad hwn yn rhoi ystyriaeth i'r ffaith bod y sgrin o goed conwydd i'r dde o Bodychain wedi ei dorri a fyddai fel arall wedi sgrinio'r estyniad arfaethedig.

5.14 O fewn cyd-destun cyffredinol safle presennol y Chwarel, mae'r dirwedd a'r newidiadau i'r dirwedd sydd wedi'u hadnabod â lefel gyfyngedig o effaith ac ni fyddai ymestyn yr amserlen i estyniad arfaethedig y chwarel yn golygu unrhyw lefelau mawr o effaith weledol. Felly, ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol mewn egwyddor, o ran bod y datblygiad yn cydymffurfio â Pholisi Strategol PS 19: Gwarchod a lle bo'n berthnasol Gwella'r Amgylchedd Naturiol a Pholisïau AMG 3, AT 1, MWYN 3 a MWYN 9 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

**Bioamrywiaeth**

5.19 Mae'r asesiad ecolegol a'r cynigion lliniaru i'r rhiant-ganiatâd, C16/0816/34/MW yn cynnwys Adroddiad Cynefinoedd Cam 1 estynedig oedd yn nodi amrywiaeth o fflora a ffawna ar y safle ac yn yr ardal oddi amgylch. Ar y cyfan, mae'r safle'r cais yn cynnwys glaswelltir niwtral sydd wedi'i wella ai wella'n rhannol gydag ardaloedd gwlyb wedi eu dominyddu gan frwyn ond hefyd, nodweddion hanesyddol sy'n gallu cynnig cynefin megis, terfynau caeau ac ardaloedd clirio cerrig. Cynhaliwyd asesiad i ganfod presenoldeb amrediad o rywogaethau a warchodir ac mae tystiolaeth o Set Moch Daear segur yn ardal y cais. Yn ychwanegol, cynhaliwyd arolwg manwl o adar bridio ac adar gaeafu ar adegau penodol o'r flwyddyn ynghyd ag arolwg ymlusgiaid.

5.20 Wrth benderfynu ar y cais, gosodwyd amod cyn cychwyn yn gofyn am gynllun mesurau osgoi rhesymol i sicrhau bod ymlusgiaid a moch daear yn cael eu gwarchod yn ystod y gwaith a cafodd hwn ei ryddhau yn ffurfiol dan gyfeirnod C19/1171/34/AC ar 7 Ionawr 2020. Cwblhawyd asesiad bioamrywiaeth wedi'i ddiweddaru er mwyn cefnogi'r cais i ymestyn amser. Mae'r adroddiad yn ystyried yr holl gynefinoedd sy'n bresennol ar y safle gan asesu os bu unrhyw newid i'r cynefinoedd hyn ers cynnal yr arolygon ecolegol blaenorol. Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod set y moch daear a ganfuwyd yn 2015, yn segur heb unrhyw dystiolaeth bellach o weithgaredd moch daear ar y safle. Mae'r camau lliniaru i ymlusgiaid yn cadarnhau bod ecolegydd cymwys yn bresennol wrth dynnu'r waliau cerrig cyn stripio unrhyw bridd a/neu echdynnu mwynau. Bydd unrhyw ymlusgiaid y daw'r ecolegydd o hyd iddynt yn cael eu dal a'u hadleoli ar unwaith i safleoedd derbyn addas y tu allan i'r ardal echdynnu a gynlluniwyd, ond yn yr ardal o dir sydd dan reolaeth yr ymgeisydd.

5.21 Saif ardal yr estyniad rhwng dau safle dynodedig sy'n ffurfio rhan o ACA Corsydd Eifionydd, Cors Gyfelog 935 metr i'r da a Chors Llanllyfni 1.5km i'r gogledd. Mewn ymateb i ymgynghoriad ar y profion effeithiau arwyddocaol tebygol ar y safle dynodedig Ewropeaidd, mae CNC yn cytuno ag asesiad Cyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Cymwys, dan Reoliad 63 y Rheoliadau Cynefinoedd 2017 nad oedd yr estyniad arfaethedig yn cael ei ystyried yn rhywbeth fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar nodweddion cadwraeth ACA Corsydd Eifionydd. Mae CNC yn argymell ymhellach y dylid ymgynghori â swyddog bioamrywiaeth yr awdurdod ar unrhyw gyfleoedd a chynigion i wella'r dirwedd/tirweddu.

5.22 Fel y crybwyllwyd eisoes, mae ardal y cais yn cynnwys porfa wedi'i gwella o werth bioamrywiaeth isel ond gallai waliau cerrig sy'n ffurfio'r caeau ddarparu safleoedd gaeafgysgu i ymlusgiaid, safleoedd nythu i adar sy'n bridio a chynefin i gen ynghyd â bod nodweddion gydag arwyddocâd hanesyddol yn y dirwedd leol. Mae amod a osodwyd ar unrhyw ganiatâd yn gofyn bod yr holl ddeunyddiau sy'n deillio o ddymchwel y waliau cerrig presennol yn cael eu gosod i un ochr ar gyfer adfer yr un ardaloedd, sydd i'w cytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Mwynau.

5.23 Mewn ymateb i ymgynghoriad, cadarnhaodd Bioamrywiaeth Gwynedd y dymunai weld manylion adfer fyddai'n ffafrio cynefinoedd o fioamrywiaeth uchel fel porfa frwynog neu weirglodd i ffafrio pori gan dda byw, ail-adfer waliau cerrig, cynnal llain 4m ar hyd y terfyn gyda'r trac beicio i adfer gweirglodd. Mae gwerth bioamrywiaeth uchel i'r ardal i'r gogledd (glaswellt y gweunydd a thir pori brwynog gyda darnau bach o gors/ffen a digonedd o damaid y cythraul) a dylid sicrhau bod y cynigion adfer yn cynnwys lefelau daear tebyg i'r presennol i sicrhau lif dŵr tua'r gogledd i'r cynefin gwlyptir. Yn ychwanegol, dylid monitro safle'r chwarel yn rheolaidd ar gyfer rhywogaethau o blanhigion anfrodorol fel Llysiau'r Dial, Ffromlys Chwarennog a Choed Mêl.

5.24 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cytuno â Bioamrywiaeth Gwynedd o ran yr effeithiau posib ar fioamrywiaeth lleol, gellir casglu felly na fydd y datblygiad yn arwain at golli cynefin gwarchodedig, rhywogaethau gwarchodedig nac yn newid hydroleg yr ACA. Mae'r cynigion adfer yn cynnwys gwella bioamrywiaeth ac felly mae'r bwriad yn cydymffurfio â gofynion Polisi Strategol PS 19, Polisi AMG 3, AMG 5, MWYN 3 a MWYN 9 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

**Hydroleg**

5.22 Mae corff o ddŵr wedi bodoli ar wyneb gogleddol gweithfeydd y chwarel am sawl blwyddyn, sy'n cynnwys dŵr wyneb a gasglwyd o ardaloedd wedi'u hadfer ac sy'n weithredol ar hyn o bryd. Bydd y nodwedd yma'n cael ei chadw a'i hymestyn yn unol â'r cynigion adfer a ddangosir ar gynlluniau'r cais a byddant yn hunan-reoleiddio heb unrhyw allfa. Nid yw'n ymddangos bod y trefniadau presennol wedi effeithio ar y nodwedd gwlyptir i'r gogledd, ond gall gwyro'r dŵr wyneb ffo o ardal yr estyniad arfaethedig olygu colli llif dŵr i nant a leolir i'r gogledd o'r ardal echdynnu arfaethedig. Mae cyfres o ffynhonnau i'r gogledd o ardal y cais, sy'n codi o'r dyddodion mawn arwynebol a gallai'r gwaith echdynnu mwynau yn y chwarel arfaethedig, efallai effeithio ar eu llif. Mewn ymateb i ymgynghoriad ar y rhiant-gais, C16/0816/34/MW, gofynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru am ragor o fanylion ar y mesurau lliniaru arfaethedig pe byddai unrhyw

ffynhonnau yn cael eu heffeithio gan y gweithgareddau cloddio. Yn yr un modd, mae pryderon bioamrywiaeth Gwynedd yn gofyn bod graddiant positif yn rhan o'r cyfuchlinau adfer i sicrhau lif dŵr tua'r gogledd i'r nodwedd gwlyptir ac ymhellach fe argymhellir amod i sefydlu gwaelodlin a chynllun i'w gytuno gyda'r awdurdod cynllunio mwynau i fonitro llif y ffynnon i'r gogledd.

5.26 Yn unol â gofynion yr amodau cynllunio, mae'r ymgeisydd wedi darparu mwy o eglurhad am y mesurau lliniaru sydd i'w defnyddio yn cynnwys monitro'r nant yn fisol i gofnodi'r amrywiaeth naturiol mewn llif a brofwyd ger y ffynhonnau, h.y. gwaelodlin, cyn echdynnu unrhyw fwynau yn ardal yr estyniad. Mae CNC wedi derbyn hyn fel mesurau lliniaru digonol yn ddarostyngedig i amod sy'n gofyn bod mesurau yn cael eu cymryd i warchod cyrsiau dŵr, ffynhonnau a gwlypdir sy'n codi'n uniongyrchol i'r gogledd o ardal y datblygiad rhag difrod posib yn sgil gweithrediad y chwarel, gyda mesurau pellach i gynnwys:

i) Gwaelodlin ffotograffig cyn dechrau ar y datblygiad,
ii) Micro-addasu lefelau adfer yn unol â chymeradwyaeth yr Awdurdod Cynllunio Mwynau i sicrhau llif dŵr wyneb tua'r gogledd,
ii) Cynllun monitro fel a amlinellir yn Atodiad 1.

5.27 Cafodd Amod 36 ei ryddhau yn ffurfiol drwy lythyr ar 7 Ionawr 2020, oedd yn cynnwys cymeradwyaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, Uned Rheoli Perygl Llifogydd a’r Arfordir Cyngor Gwynedd a hefyd ymateb Uned Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd oedd yn argymell bod yr Adroddiad Monitro Hydrolegol yn cynnwys mesurau dyfnder a lled y sianel gyda disgrifiad o'r sianel a mesur llif i sicrhau llif dŵr tua'r gogledd i'r cynefin gwlyptir.

5.28 Bydd y safle hefyd angen caniatâd gweithredu ar wahân gan Asiantaeth yr Amgylchedd dan y Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol ond yn ychwanegol, gellir cytuno ar ficro-addasiad o'r cyfuchlinau adfer terfynol ar ddyddiad hwyrach os y gellir cadarnhau bod dŵr annigonol yn llifo i ardal y gwlyptir i'r gogledd.

5.29 Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau na phryderon yn ymwneud â draenio neu risg llifogydd mewn ymateb i'r ymgynghoriad gyda Chyfoeth Naturiol Cymru neu Uned Risg Llifogydd a Draenio Tir Gwynedd ac felly, ystyrir na fydd gan y bwriad effaith andwyol ar yr amgylchedd dŵr lleol (POLISI PCYFF6). Mae materion a fyddai fel arall yn destun caniatâd gollwng ar wahân neu Drwydded Amgylcheddol wedi eu rhestru yn yr adroddiad hwn a byddant yn cael eu dwyn i sylw'r datblygwr drwy 'nodyn i'r ymgeisydd' a gyflwynir gyda'r caniatâd cynllunio, ond ni fyddant i'w gweld yn y rhestr o amodau cynllunio sy'n atodol i'r hysbysiad penderfyniad ei hun. Mae'r cynigion adfer yn cynnwys gwella bioamrywiaeth ac felly mae'r bwriad yn cydymffurfio â gofynion Polisi Strategol PS 19, Polisi AMG 3, AMG 5, MWYN 3 a MWYN 9 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

**Treftadaeth Ddiwylliannol**

5.30 Cyflwynwyd arolwg archeolegol ac asesiad fel rhan o'r cais gwreiddiol gan fod y dirwedd yn un y gwyddys sy'n gyfoethog o ran olion archeolegol, gyda nifer o safleoedd sydd wedi eu cloddio yn agos at yr ardal echdynnu. Mae'r rhaglen waith archeolegol yng Ngraianog yn mynd rhagddi ac fe gafwyd rhai canlyniadau diddorol.

5.31 Mae ardal y cais yn cynnwys sawl safle archeolegol a gofnodwyd ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol ac wedi ei adnabod fel cloddwaith a nodweddion adeiladwyd o gerrig, efallai o ganlyniad i glirio clogfeini a gweddillion cytiau neu ddulliau cau gaeau. Er hynny, dengys y gwaith ffosydd prawf, a wnaed fel rhan o'r asesiad archeolegol, er bod tystiolaeth o weithgareddau dynol ar ffurf clirio caeau, na ddaethpwyd o hyd i ddim oedd yn awgrymu meddiannu neu weithgaredd diwydiannol ar y safle.

5.32 Gall terfynau caeau'r safle ddeillio o'r canol oesoedd a byddai estyniad arfaethedig y chwarel yn golygu colli y nodweddion gweledol yma, ynghyd ag unrhyw ddyddodion neu strwythurau archeolegol. Cynghorodd Cynllunio Archeolegol Gwynedd y dylai fod rhaglen briodol o gamau

lliniaru archeolegol, yn cynnwys unrhyw gofnodi angenrheidiol cyn y datblygiad a ddilynir gan archwiliad gofalus o nodweddion penodol ond hefyd stripio archeolegol o'r safle i adnabod a chofnodi dyddodion wedi eu claddu a gwaith ôl-gloddio fel bo'n briodol i'r canlyniadau. Felly, cafodd amod cyn dechrau oedd yn gofyn bod rhaglen o waith archeolegol yn cael ei chynnwys ar y caniatâd i ardaloedd heb eu tarfu sydd heb eisoes fod yn amodol i waith adfer a ecsbloetio mwynau.

5.33 Cadarnhaodd yr adroddiad, a'r gwerthusiad o'r safle a gyflwynwyd, er bod nodweddion o bwysigrwydd archeolegol, na wnaeth nodwedd a dybiwyd yn flaenorol i fod yn dyddyn canoloesol a system gaeau gysylltiedig ddangos unrhyw dystiolaeth o weithgareddau domestig. Mae'r safle yn debygol o fod yn ganlyniad i benodau dilynol o glirio caeau wrth gyffordd sawl terfyn. Gallai nodweddion eraill fod yn bresennol o dan yr ardal ble bu dympio diweddarach.

5.34 Cadarnhaodd ymateb yr Archeolegydd Rheolaeth Datblygu bod y fanyleb ar gyfer y gwaith archeolegol yn cwrdd â chymeradwyaeth y Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol (GAPS) ag Amod 37 cysylltiedig, ei ryddhau yn ffurfiol ar 19 Rhagfyr 2019. Er hynny, mae'r sylwadau ychwanegol a gyflwynwyd gan GAPS yn datgan o ran Amod 38, bod gofyniad yn parhau i gyflwyno adroddiad ar waith maes archeolegol ar gyfer y ddau gam perthnasol o'r datblygiad.

5.35 Ystyrir bod yr asesiad archeolegol yn darparu'r sgôp ar gyfer gwaith archeolegol pellach a chamau lliniaru ar gyfer effeithiau archeolegol a threftadaeth ddiwylliannol posib y datblygiad ac yn cydymffurfio â gofynion Polisi AT 4 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026, (*diogelu safleoedd archeolegol nad ydynt wedi'u dynodi a'u gosodiad*).

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.36 Mae'r estyniad arfaethedig, yn ôl ei natur, yn debyg i'r dulliau echdynnu a symud peiriannau sydd wedi bod yn weithredol ar y safle am sawl blwyddyn ac sydd wedi bod yn destun rheoliadau amgylcheddol drwy amodau cynllunio, neu Drwyddedau Amgylcheddol.

5.37 Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru a NCTM1: Agregau wedi sefydlu'r egwyddor o gylchfeydd rhagod o amgylch safleoedd echdynnu mwynau, ble mai'r amcan yw amddiffyn defnyddiau tir sydd fwyaf sensitif i effaith gweithrediadau mwynau drwy sefydlu pellter gwahanu rhwng defnyddiau tir a allai fod yn gwrthdaro. Caiff datblygiad sensitif ei ddiffinio yn NCTM1 fel; "*unrhyw adeilad a ddefnyddir gan bobl yn rheolaidd ac sy'n cynnwys ardaloedd o dai, hostelau, mannau cyfarfod, ysgolion ac ysbytai, a lle y disgwylir mwynderau o safon dderbyniol*". Diffinnir cylchfa ragod o ymyl allanol yr ardal weithredol, gan gynnwys ffyrdd cludo safle a lagwnau. Mae NCTM1 yn argymell pellter o 100 metr o leiaf ar gyfer gweithfeydd tywod a graean ac eraill lle na chaniateir ffrwydro. Nid oes eiddo sensitif wedi'i leoli o fewn cylchfeydd rhagod o 100m a weithredir yn ardal y trac mynediad arfaethedig dan bolisi MWYN 5 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.

5.38 Mae'r camau lliniaru arfaethedig yn y cais yn cadarnhau parhad y drefn bresennol sy'n golygu cynllun echdynnu ac adfer graddol i leihau faint o dir gaiff ei dynnu o ddefnydd amaethyddol ar unrhyw adeg benodol. Bydd trefn y gweithrediadau yn mynd rhagddo o'r gorllewin i'r dwyrain, i sicrhau y gall peiriannau'r gwaith weithredu tu ôl i wyneb y gwaith fel mae'n bwrw ymlaen tuag at y llwybr beicio cyfagos. Yn ychwanegol at y sgrin a ddarperir gan weithfeydd y chwarel, caiff bwnd pridd ei lunio ar hyd terfyn dwyreiniol y safle i weithredu fel rhagod rhwng y chwarel a defnyddwyr Lôn Eifion. Mae strategaeth debyg eisoes yn cael ei gweithredu ar ystlys gorllewinol y gweithfeydd ble mae gwregys o goed wedi ei sefydlu yn unol â'r amodau sy'n atodol i'r caniatâd blaenorol.

5.39 Mae'r cais yn cynnig yr un amodau gweithio â'r rhai presennol, gan gynnwys rheoli sŵn, llwch ac oriau gweithio ac mae rhai enghreifftiau lle mae'r awdurdod cynllunio wedi derbyn cwynion. Y dasg o lwytho'r hopran a'r cludwr yw'r ffynhonnell sŵn mwyaf ymwthiol ar y wyneb gweithio gan bod peiriannau'r gwaith yn gweithredu mewn safle ymgodol mewn perthynas â lefel y tir o

amgylch. Dylid gosod larymau sŵn gwyn i gerbydau a pheiriannau'r chwarel i leihau ar unrhyw darfu.

5.40 Ystyrir felly, yn ddarostyngedig i amodau priodol i reoli effeithiau sŵn a llwch ac oriau gweithio, ni fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar fwynderau'r ardal ac felly mae'n cydymffurfio â pholisi PCYFF 2, MWYN 3 a MWYN 5 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

**Materion traffig a mynediad**

5.41 Mae manylion y cais yn cadarnhau bod y chwarel yn allforio cyfartaledd o 90,000 tunnell y flwyddyn a byddai'r estyniad arfaethedig yn sicrhau cyflenwad o ddeunydd hyd at fis Rhagfyr 2024. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, cadarnhaodd Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth Cyngor Gwynedd nad oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad.

5.42 Mae'r fynedfa i Gefnffordd yr A487 o ansawdd derbyniol a bydd traffig yn cael mynediad i'r safle ar hyd rhan fer o Ffordd Ddi-ddosbarth. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, cadarnhaodd awdurdod priffyrdd Llywodraeth Cymru nad oedd yn bwriadu cyflwyno cyfarwyddyd mewn perthynas â'r cais hwn.

5.43 Felly, ystyrir bod y rhwydwaith ffyrdd presennol o ansawdd digonol i ymdrin â llif y traffig a ddisgwylir o ddatblygiad y safle, ac felly, mae'n cydymffurfio â Pholisi TRA 4 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

**Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

5.44 Nid oes unrhyw lwybrau cyhoeddus na hawliau tramwy yn cael eu heffeithio gan y bwriad ac felly nid oes gofyn gwneud unrhyw ddarpariaeth am orchmynion cau neu wyro penodol. Er hynny, lleolwyd y safle yn gyfagos i lwybr beicio Lôn Eifion.

5.45 Yn ddarostyngedig i amodau priodol i sicrhau bod pentyrrau storio pridd yn darparu rhagod digonol rhwng y gweithfeydd a'r wal derfyn sy'n wynebu llwybr beicio Lôn Eifion, mae'r bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion PCYFF 2 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

**Materion cynaliadwyedd**

5.46 Mae'r adroddiad hwn wedi asesu materion cynaliadwyedd y cais yn unol â'r nod o ddatblygu cynaliadwy ac yn unol â saith nod llesiant 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' i helpu i sicrhau bod cyrff cyhoeddus i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth o Gymru gynaliadwy.

5.47 Fel Awdurdod Cynllunio Mwynau, mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod adnoddau mwynau'n cael eu gweithio mewn modd cynaliadwy, fel y gallant gyfrannu'n briodol at ofynion deunyddiau adeiladu'r ardal. Mae gan Wynedd hanes hir o gloddio mwynau, ac mae'n parhau i fod yn rhan bwysig o'i gwead economaidd a chymdeithasol. Yng ngogledd Cymru ceir tomenni helaeth o amrywiaeth o ddeunyddiau sy'n addas i'w defnyddio: creigiau igneaidd, tywod a graean a chalchfaen yn benodol. Mae'r cais hwn yn ceisio sicrhau parhad gweithrediad y cyfleuster i gefnogi echdyniad cronfa fwynau a ganiateir lle mae dyddodion hysbys o dywod a graen i'w cael.

**Yr Economi**

5.48 Mae Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygiad Economaidd, yn datgan: wrth wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol gadw mewn cof bod defnydd busnes traddodiadol, dosbarthiadau B1–B8 ond yn cyfrif am ran o'r gweithgaredd yn yr economi. Mae'n bwysig bod y system gynllunio yn cydnabod agwedd economaidd pob datblygiad ac yn gwneud penderfyniadau cynllunio mewn modd cynaliadwy sy'n cadw cydbwysedd rhwng

ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae’n datgan ymhellach; Dylai awdurdodau cynllunio lleol gydnabod arwyddion y farchnad a rhoi sylw i'r angen i dywys datblygiad economaidd i’r lleoliadau mwyaf addas yn hytrach na rhwystro neu atal y fath ddatblygiad.

5.49 Mae'r datblygiad yn cynnig ymestyn yr amser i ennill a gweithio tywod a graean a bydd felly yn helpu i gynnal swyddi llawn amser i staff y safle a gyflogir yn uniongyrchol ac anuniongyrchol o ganlyniad i weithrediad y chwarel. Yn ogystal, mae tywod a graean yn hanfodol ar gyfer yr economi adeiladu leol ac mae cael ffynhonnell leol yn cadw costau ynghyd ag allyriadau carbon i lawr.

5.50 Bydd y cynnig yn cynorthwyo i gynnal 13 o swyddi llawn-amser i staff y safle, wedi'u cyflogi'n uniongyrchol ac anuniongyrchol o ganlyniad i'r gweithrediadau presennol yng Ngraianog, Porth Penrhyn a Stad Ddiwydiannol Llandygai. Yn fwy na hyn, mae cadw gweithwyr lleol yn cael effeithiau positif ar ddiwylliant, ac yn fwy penodol, ar statws y Gymraeg yn yr ardal.

5.51 Felly, mae’n debygol y bydd y bwriad yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i economi'r ardal yn unol â Pholisi Strategol PS 13 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn i ddarparu cyfleoedd am economi ffyniannus, ynghyd â Chanllaw Cynllunio Atodol Gwynedd, Cynllunio a'r Iaith Gymraeg, Tachwedd 2009.

**Yr Iaith Gymraeg**

5.52 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ymdrin â phwysigrwydd y Gymraeg wrth gyflawni ei amcanion cynaliadwyedd i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

5.53 Cyflwynwyd Datganiad Iaith gyda'r cais yn unol â Pholisi PS1 o'r Cynllun Datblygu Lleol a'r canllawiau Cynllunio perthnasol; 'Cynnal a Chreu Cymunedau Unigryw a Chynaliadwy 2019'. Mae Polisi PS 1 (Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig) a Pholisi PS 5 (Datblygiad Cynaliadwy) yn ceisio hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn ardal y Cynllun a helpu i gefnogi a gwella'r amodau sy'n sicrhau cymunedau cynaliadwy a ffyniannus.

5.54 Mae'r datganiad iaith yn asesu effaith y datblygiad arfaethedig ar gymunedau ac yn adnabod mesurau fydd un ai yn lliniaru'r effeithiau negyddol neu'n gwarchod/gwella/ lledaenu effeithiau cadarnhaol. Mae Gwynedd yn cynnwys y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru (65.4% o bobl dros 3 oed yn medru siarad Cymraeg; y ffigwr cenedlaethol ar draws Cymru gyfan yw 19%). O gymharu â Chyfrifiad 2001, mae hyn wedi cwympo rhywfaint (5.2%) o 69%. Yn ward Llanllyfni, gall 75.5% o'r boblogaeth 3 oed a throsodd siarad Cymraeg, sydd fel y Sir wedi cwympo rhywfaint ers Cyfrifiad 2001 (cwymp o 2.1% o 79.9%). Fel y cyfryw, gellir gweld bod y gyfran o'r boblogaeth a all siarad Cymraeg yn y ward yn uwch na'r ffigwr ar gyfer y sir yn ei chyfanrwydd. Yn ogystal â hyn, nid yw'r dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ward mor fawr â'r sir gyfan.

5.55 Bydd y cais hwn yn sicrhau parhad gwaith presennol lle mae'r gweithlu presennol eisoes yn dod o'r ardal leol. Gall y gweithlu cyfan siarad Cymraeg ac felly mae'r datblygiad yn debygol o gynnal siaradwyr Cymraeg yn y gymuned leol, fydd yn defnyddio'r iaith yn y gweithle.

5.56 Nid oes gan yr ymgynghorydd iaith unrhyw wrthwynebiad i’r cais i ymestyn yr amser o safbwynt ieithyddol. Ystyrir mai effaith niwtral fyddai o gymeradwyo'r cais ac felly mae'r datblygiad yn cydymffurfio â pholisi PS1 a PS5 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

## 6. Casgliadau:

6.1 Mae angen asesu'r cynnig am 4 blynedd ychwanegol i gwblhau'r gwaith echdynnu ac adfer estyniad y chwarel yn raddol yn erbyn meini prawf polisi cynllunio ac mae'r awdurdod wedi ymgynghori ar y cais hwn i ganfod effeithiau posib y datblygiad. Mae'r cyflwyniad yn ymdrin â'r ystyriaethau cynllunio materol wrth asesu effaith y datblygiad arfaethedig.

6.2 Mae'n annhebygol y bydd unrhyw newid amlwg yn amodau gweithio'r safle na newid i effaith weledol y gwaith ac ni fydd y datblygiad yn tynnu oddi wrth nodweddion cadarnhaol y dirwedd na'r elfennau hynny sy'n cyfrannu at gymeriad unigryw y Parc Cenedlaethol, neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn. Bydd parhau â'r cynllun echdynnu ac adfer graddol yn lliniaru yn erbyn effaith y gweithfeydd mwynau ar osodiad y Parc Cenedlaethol, AHNE Llŷn, ynghyd ag Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd lleol yn unol â pholisi PS 19, AMG 3, AT 1, MWYN 3 a MWYN 9 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

6.3 Nid oes unrhyw faterion polisi cynllunio sy’n ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, ac mae’r materion sy’n ymwneud â rheolaethau sŵn, llwch ac amgylcheddol bellach yn hen faterion ar y safle hwn a nifer fechan iawn o gwynion a anfonwyd i sylw'r awdurdod cynllunio mwynau. Ystyrir felly, yn ddarostyngedig i amodau priodol i reoli effeithiau sŵn a llwch ac oriau gweithio, ni fydd y bwriad yn cael effaith andwyol ar fwynderau'r ardal ac felly mae'n cydymffurfio â pholisi PCYFF 2, MWYN 3 a MWYN 5 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

6.4 Mae’r datblygiad yn dderbyniol mewn egwyddor a byddai’n cyfrannu at seilwaith y prif gronfeydd tywod a graean yng Ngwynedd ac mae’n cydymffurfio â gofynion polisi cynllunio mwynau rhanbarthol a lleol. Mae'n cydymffurfio â gofynion polisi cynllunio mwynau rhanbarthol a lleol ac yn cydymffurfio â meini prawf cynaliadwyedd Polisi PS 22 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026, o ystyried polisi cenedlaethol cyfredol ar gyfer cynnal banc tir o reserfau mwynau yn unol â'r canllawiau yn NCTM1 (Cymru) Agregau a'r Datganiad Technegol Rhanbarthol. Yn ogystal, mae’n debygol y bydd y bwriad yn gwneud cyfraniad positif i economi’r ardal yn unol â Pholisi Strategol PS 13 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

6.5 Saif ardal yr estyniad rhwng dau safle dynodedig sy'n ffurfio rhan o ACA Corsydd Eifionydd, Cors Gyfelog 935 metr i'r de a Chors Llanllyfni 1.5km i'r gogledd. Mewn ymateb i ymgynghoriad ar y profion effeithiau arwyddocaol tebygol ar y safle dynodedig Ewropeaidd, mae CNC yn cytuno ag asesiad Cyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Cymwys, dan Reoliad 63 y Rheoliadau Cynefinoedd 2017 nad oedd yr estyniad arfaethedig yn cael ei ystyried yn rhywbeth fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar nodweddion cadwraeth ACA Corsydd Eifionydd. Mae'r bwriad felly'n cydymffurfio gyda gofynion Polisi Strategol PS 19 a Polisi AMG 3, AMG 5, PCYFF 6, a MWYN 3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

6.6 Ni chafwyd unrhyw sylwadau na phryderon yn ymwneud â draenio neu risg llifogydd mewn ymateb i'r ymgynghoriad gyda Chyfoeth Naturiol Cymru neu Uned Risg Llifogydd a Draenio Tir Gwynedd ac felly ystyrir na fydd gan y bwriad effaith andwyol ar yr amgylchedd dŵr lleol (POLISI PCYFF6). Gollyngwyd amod ar y cais cynllunio gwreiddiol a ganiatawyd oedd yn gofyn am fesurau i gael eu cymryd i warchod cyrsiau dŵr, ffynhonnau a gwlypdir sy'n codi'n uniongyrchol i'r gogledd o ardal y datblygiad rhag difrod posib yn sgil gweithrediadau'r chwarel.

6.7 Mae cynllun adfer amaethyddol llwyddiannus sydd wedi'i brofi yn Fferm Graianog. Yn ychwanegol, mae CNC a Bioamrywiaeth Gwynedd yn gefnogol i'r gynigion am dir pori garw a gwella bioamrywiaeth fydd yn cynnwys porfa frwynog neu weirglodd i ffafrio da byw sy'n pori, ailsefydlu waliau cerrig a sicrhau llif dŵr tua'r gogledd i'r cynefin gwlyptir. Mae'r cynnig felly'n cydymffurfio gyda gofynion Polisi Strategol PS 19 a Pholisi AMG 3, AMG 5, MWYN 3 a MWYN 9 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026. Felly, bydd amcanion

allweddol y cynllun yn integreiddio/cydweddu’r safle yn ei amgylchedd; gwella bioamrywiaeth ac atgyfnerthu patrwm y dirwedd. Mae cynllun lliniaru ar gyfer ymlusgiaid wrth gael gwared ar derfynau'r caeau, dim gwaith clirio safle yn ystod y tymor bridio adar a mesurau i ganfod presenoldeb Moch Daear cyn i'r gwaith fynd rhagddo, wedi ei ollwng yn ffurfiol fel amod ar y caniatâd gwreiddiol.

6.8 Mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd yn cadarnhau nad oes unrhyw bryderon archeolegol gyda'r cyfnod ymestyn a ofynnir. Mae'r amodau ar y caniatâd gwreiddiol o ran mesurau lliniaru a chofnodi archeolegol i ardaloedd na tharfwyd arnynt yn flaenorol wedi eu gollwng yn ffurfiol. Felly, mae'r bwriad yn cydymffurfio gyda Pholisi AT 4 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2016.

6.9 Ni fydd gan y datblygiad effaith andwyol ar unrhyw briffordd na phriffordd arfaethedig. Mae gan y chwarel fynediad uniongyrchol i Gefnffordd yr A487 ac mewn ymateb i'r ymgynghoriad, cadarnhaodd awdurdod priffyrdd Llywodraeth Cymru nad oedd yn bwriadu cyflwyno cyfarwyddyd mewn perthynas â'r cais hwn. Felly, mae'r bwriad yn cydymffurfio gyda Pholisi TRA 4 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

6.10 Bydd gan y datblygiad effaith niwtral ar y Gymraeg ac fe ystyrir felly bod y datblygiad yn cydymffurfio â chanllawiau pholisïau PS 1 a PS 5 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

6.11 Mae'r bwriad yn bodloni anghenion cynaliadwyedd Polisi Cynllunio Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

7. **Dirprwyo'r hawl i Bennaeth Cynorthwyol yr Adran i gymeradwyo'r cais, yn ddarostyngedig i'r newid isod i Amod 1 ar ganiatâd cynllunio C16/0816/34/MW i ymestyn oes y gweithrediadau mwynau sy'n ymwneud â gweithrediad tair lagŵn dyddodion ategol a'r gwaith cysylltiedig am gyfnod o 4 blynedd ychwanegol:**

*Daw'r gwaith o echdynnu mwynau i ben erbyn 31 Rhagfyr 2024 ac erbyn hynny bydd yr holl weithfeydd a pheiriannau wedi'u gwaredu o'r safle; bydd y gwaith adfer wedi'i gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2025.*

7.1 Ymateb ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru i'w atodi i'r daflen penderfyniad, yn cynghori y dylid cysylltu â hwy yn uniongyrchol mewn perthynas â'r rheolaethau amgylcheddol a gweithredol penodol a'r ddarpariaeth o wasanaeth o fewn eu cylch gwaith.

7.2 Amodau cynllunio fel y presennol mewn perthynas â'r rheolaethau rheoli a ganlyn;

- Hyd y cyfnod gweithio,
- Cyfyngu ar yr Hawliau Datblygu a Ganiateir, adeiladau, strwythurau, rhai a godir, ffyrdd preifat, llifoleuadau a ffensys,
- Mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau posib ar ffynhonnau i'r gogledd o'r ardal echdynnu,
- Mesurau lliniaru ar gyfer bioamrywiaeth leol, Moch Daear, adar bridio ac ymlusgiaid,
- Gweithgareddau a ganiateir a Chydymffurfiaeth â’r Manylion/Cynlluniau a Gyflwynwyd,
- Oriau Gweithio,
- Diogelu hawliau tramwy cyhoeddus,
- Ymdrin â phridd a hwsmonaeth
- Draenio, mesurau i atal llygru cyrsiau dŵr lleol,
- Adfer i ddefnydd amaethyddol cymysg a chadwraeth natur,
- Ail-adfer terfynau caeau,

- Micro-addasu lefelau adfer i sicrhau llif dŵr wyneb i'r gwlyptir tua'r gogledd o ardal y cais,
- Lliniaru a chofnodi archeolegol,
- Mesurau ôl-ofal ar gyfer defnyddiau amaethyddol a rheoli bioamrywiaeth,
- Rheolaethau llwch a chyfyngu ar sŵn yn yr un modd ag y gwneir eisoes, ond hefyd, gosod larymau sŵn gwyn ar beiriannau'r gwaith yn yr wyneb gweithio.